| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Sgrwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad** | 6ed Ragfyr 2011 |
| **Pwnc** | Adroddiad Rheoli Perfformiad – Chwarter 2 |
| **Deilydd Portffolio** | Byron Davies |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Richard Parry Jones |
| **Swyddog Cyswllt** | Huw Jones 2108<br>Gethin Morgan 2111 |

**Rheswm am yr adroddiad:**

**Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ym mherfformiad y Cyngor yn erbyn trefniadau cynlluniedig yn y Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2011/12 yn ogsytal a Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr a gafwyd ei cydnabod yn rhan o'i hadroddiad chwarter 1. Y mae'r adroddiad a ddilynir yn cydnabod strwythur adrodd newydd ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad gan gynnwys materion risg a sylwebaeth ar liniaru risg.**

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

Mae sefydlu trefniadau rheoli perfformiad cryf wedi cael ei gydnabod fel un o elfennau craidd y rhaglen newid yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Mae trefniadau Rheoli Perfformiad cryf ac aeddfed yn un o'r meysydd a fydd yn hollbwysig i ffocws y Comisiynwyr yn 2011 ac mae'r adroddiad hwn yn dangos y newidiadau o ran sefydlu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddelio gyda materion rheoli perfformiad yn y Cyngor.

I gynorthwyo i fonitro perfformiad, cyflwynwyd system Ffynnon (fel Teclyn Rheoli Perfformiad) a'i datblygu i fonitro cynnydd yn erbyn trefniadau cynlluniedig o fewn Cynlluniau Darparu Gwasanaeth a'r Cynllun Busnes Corfforaethol

**Amserlenni**

Cynhaliwyd yr ail rownd o gyfarfodydd dan y trefniadau monitro cyfredol yn ystod yr wythnos Hydref 31 – Tachwedd 4, 2011. Mae cyfarfodydd pellach wedi eu trefnu ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn -

6 Chwefror 2012

14 Mai 2012

Adroddir ar y rhain i'r Bwrdd Gwella Corfforaethol mewn cyfarfodydd i'w hamserlennu yn rheolaidd wedi hynny.

**Cyfarfod Chwarterol 2**

Roedd y rheini a enwir isod yn bresennol yn y cyfarfodydd perfformiad chwarterol -

Prif Weithredwr (Cadeirydd)
Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a Swyddogion Cyswllt Perfformiad a benodwyd
Dadansoddydd Perfformiad
Ymgynghorydd Perfformiad
Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn nodi'r amcanion gwella a'r blaenoriaethau strategol sydd yn y Cynllun Busnes Corfforaethol. Mae sicrhau perfformiad yn erbyn targedau yn seiliedig ar statws Coch, Ambr a Gwyrdd (RAG). Mae'r statws RAG wedi ei ddiffinio fel a ganlyn -

R - Yn nodi bod materion sylweddol wedi dod i'r amlwg a bod angen cymryd camau i'w cywiro – fel arall ystyrir na fydd modd cwrdd â'r dyddiad cwblhau. (R)

A - Yn golygu bod problem, ond bod camau yn cael eu cymryd i'w datrys neu bod problem bosib wedi codi ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd, ond ei bod yn cael ei monitro'n ofalus. (A)

G - Yn golygu bod pethau yn mynd yn unol â'r cynllun. Ni chafwyd gwybod am unrhyw faterion neu broblemau sy'n achosi pryder. (G)

**B – Ystyriaethau**

1. Yr adroddiad hwn yw'r adroddiad ffurfiol cyntaf i fynd i'r afael â'r Amcanion Gwella Llywodraethu Corfforaethol a amlinellwyd gan Gomisiynwyr Ynys Môn yn eu hadroddiad chwarter cyntaf i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau. Dyma'r amcanion hynny -

a. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol
b. Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor
c. Sgriwtini a'i allu i herio'n effeithiol a dylanwadu ar benderfyniadau a pholisïau.
d. Safonau ymddygiad Aelodau a Swyddogion
e. Cydlyniant y sefydliad ac effeithiolrwydd Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor
f. Datblygu blaenoriaethau strategol y mae modd eu mesur yn seiliedig ar ganlyniadau
g. Cyflwyno proses gadarn ar gyfer perfformiad, prosiectau a rheoli risgiau
h. Gwella capasiti, ansawdd a'r modd y rheolir y gwasanaethau cefnogaeth gorfforaethol.
i. Ymgysylltu'n llawn gydag ac adlewyrchu sylwadau a blaenoriaethau dinasyddion Ynys Môn.
j. Datblygu partneriaethau effeithiol rhwng y Cyngor â'r sectorau cyhoeddus a phreifat ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

2. Y mae a wnelo'r adroddiad hwn â Chwarter 2 y flwyddyn ariannol gyfredol sy'n ymwneud â'r cyfnod o 3 mis rhwng Gorffennaf a Medi 2011 ac mae wedi ei ddylunio i nodi, ar gyfer pob un o'r 10 blaenoriaeth a amlinellir uchod, y camau gweithredu allweddol, y mesurau a'r statws CAG ynghyd â'r risgiau cysylltiedig â sylwadau ar liniaru'r risgiau hynny.

3. Y mae'r adroddiad hefyd yn rhoi darlun cynhwysfawr o berfformiad chwarter 2 yn erbyn blaenoriaethau strategol a'r blaenoriaethau gwella a amlinellwyd yn y Cynllun Busnes Corfforaethol 2011/12.

4. Mae'r sylwadau isod yn grynodeb byr o lwyddiannau allweddol a chyflawniad yn erbyn y 10 blaenoriaeth ynghyd â meysydd allweddol eraill ar gyfer eu datblygu ymhellach ac sy'n peri pryder.

5. Mae sefydlu trefniadau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad cryf wedi cael ei gydnabod fel un o elfennau craidd y rhaglen ad-drefnu yn CSYM. Mae trefniadau Rheoli Perfformiad cadarn ac aeddfed yn un o'r meysydd elfennol y canolbwyntir arnynt yn unol ag amcanion y Comisiynwyr uchod ac mae wedi ei gynnwys ym mlaenoriaeth strategol y Cyngor a fabwysiadwyd yn y Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2011/12 sef darparu Gwasanaethau Effeithlon a Fforddiadwy. Yn y papur hwn, nodir y newidiadau a wnaed o ran darparu dull yn seiliedig ar dystiolaeth o ymwneud â rheoli perfformiad yn y Cyngor yn ystod y 6 mis cyntaf o arweinyddiaeth y Comisiynwyr.

6. Mae'r fframwaith adolygu perfformiad wrthi'n cael ei hadolygu i gynnwys dull cydweithio cryf o ran cynllunio strategol a darparu gweledigaeth ar gyfer yr ardal. Bydd hyn, ynghyd ag integreiddio cynllunio corfforaethol a chynllunio gweithredol gyda chynllunio ariannol a threfniadau rheoli yn cymryd siâp a byddant yn arwain at gyfrifoldebau ac atebolrwydd a ddeellir yn glir ar draws y sefydliad i bwrpas rhoi mewnbwn i bennu amcanion ac i bwrpas rheoli a chyflawni'r Cynllun Busnes Corfforaethol a fydd yn cael ei lunio ar gyfer 2012/15.

7. Er mwyn llunio Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2012/15, mae'n hanfodol bod y sefydliad yn mabwysiadu ac yn datblygu blaenoriaethau strategol y mae modd eu mesur gan ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Er mwyn gwneud hyn, cafodd gweithdy ar y cyd i'r Swyddogion / Aelodau ei gadeirio gan y Prif Weithredwr Dros Dro a'i hwyluso gan Doug Elliott i nodi blaenoriaethau strategol / canlyniadau arfaethedig i roi arweiniad o ran ffurfio'r cynllun hwn. Llwyddwyd i wneud hynny a bydd yn sylfaen ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori gyda dinasyddion a chydranddeiliaid i weld a oes gan y sefydliad y ffocws angenrheidiol ar gyfer y dyfodol.

8. Ochr yn ochr â'r fframwaith arfaethedig, bydd y sefydliad yn cynnal cyfres o adolygiadau datblygiad personol dan gyfarwyddyd y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol a fydd yn annog ac yn creu perchenogaeth o'r canlyniadau arfaethedig ar draws yr holl lefelau staffio.

9. Gwnaed cryn gynnydd o ran cadernid y broses gwneud penderfyniadau yn yr Awdurdod ac mae rheoli risg yn dechrau chwarae rôl hanfodol yn y broses honno. Mae cofrestr Risgiau Corfforaethol wrthi'n cael ei datblygu yn dilyn y wybodaeth a gafwyd o'r trefniadau monitro perfformiad ar gyfer y chwarter cyntaf ac mae hyfforddiant pellach ar 'risg' wedi ei drefnu ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion strategol yn Chwarter 3.

10. Mae ymgysylltu gyda'n ddinasyddion a'n cymunedau yn elfen arall allweddol y bydd y Comisiynwyr yn canolbwyntio arni ac, yn ystod Chwarter 2, cafodd strategaeth ymgysylltiad cymunedol ei datblygu a'i chymeradwyo o fewn cylch busnes y sefydliad. Canfuwyd meysydd risg sylweddol yn ystod Chwarter 2 ond nodwyd camau gweithredu cyflawni / cywiro ar gyfer Chwarter 3 a 4 yn canolbwyntio ar sefydlu strwythurau ymgysylltu yn seiliedig ar ardaloedd a chynnal arolwg trigolion i gael sylwadau a barn y dinasyddion a'r cymunedau am y gwasanaethau.

11. Gwnaed cryn gynnydd gyda datblygu'r swyddogaeth sgriwtini yn ystod Chwarter 2 gyda sgriwtini'n cael effaith ar y modd y darperir gwasanaethau gydag ychwaneg na 90% o argymhellion sgriwtini'n cael ei gymeradwyo gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniadau.

12. Fodd bynnag, mae sialensiau sylweddol yn wynebu'r Awdurdod, y mwyaf nodedig o'r rhain yw ymateb y sefydliad i'r adroddiad beirniadol gan yr AGGCC ar y Gwasanaethau Plant. Mae'r Cyfarwyddwr Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymryd camau cyflym a phendant yn ystod Chwarter 2 i sefydlu Bwrdd Gwella ac arno Dîm Cefnogaeth Allanol Annibynnol i sefydlu dull cynhwysfawr a strwythuredig o ddelio gyda'r meysydd sy'n peri pryder. Mae Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro wedi cael ei phenodi i oruchwylio gweithrediad y Cynllun Gwella y cytunwyd arno.

13. Yn ychwanegol at hyn, mae gwireddu'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn mynd rhagddo ac mae'r gwaith rheoli rhaglen o ran yr agenda arbedion wedi dwyn sylw at faterion o bwys y bydd angen i'r sefydliad gymryd camau cywiro yn eu cylch

os ydynt am wireddu'r rhain yn llawn.

14. Mae’n gwireddiad ni o’r Cytundeb Canlyniadau hefyd yn achosi rhywfaint o bryder ond y gred yw y bydd adnabod y meysydd o bryder yn fuan yn galluogi’r sefydliad i liniaru unrhyw ddiffygion gan sicrhau canlyniad positif ar ddiwedd yr ail-flwyddyn o gytundeb 3 blynedd gyda Llywodraeth Cymru.

13. Mae adroddiadau ar adolygiadau cymheiriaid wedi cael ei sgriwtineiddio ymhellach gan Uwch ‘Swyddogion ac mae cynlluniau gweithredu wrthi’n cael eu datblygu i ymdrin yn adeiladol a’r materion a godwyd.

14. Nodwyd sialensiau pellach o ran diffyg cydymffurfiaeth gyda’r Protocol Rheolaeth Wleidyddol a gytunwyd, a dderbyniwyd ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn ar 8 Mawrth 2011. Mae’r maes hwn mewn perygl o ddadsefydlogi’r adferiad pan ddaw’r ymyrraeth gyfredol i ben a bwriedir cymryd camau cywiro yn ystod Chwarter 3.

**CH – Crynodeb**

Gwella trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yw un o’r prif amcanion dan un o’r blaenoriaethau strategol a fabwysiadwyd yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2011/12, sef darparu Gwasanaethau Effeithiol a Fforddiadwy.

Mae’r dull hwn yn ychwanegu at yr hyn a sefydlwyd ar gyfer chwarter 1, sef dull sy’n seiliedig ar dystiolaeth, yn nodi’r sefyllfa yn erbyn y trefniadau a gynlluniwyd mewn perthynas â’r canlyniadau sydd i’w cyflawni fel rhan o Amcanion Gwella a Blaenoriaethau Strategol y Cyngor ynghyd a Blaenoriaethau Gwella Corfforaethol y Comisiynwyr. Mae angen rhoi pwyslais yn benodol ar yr agweddau hynny ar berfformiad sydd wedi eu nodi fel rhai statws COCH neu AMBR yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Mae’r wybodaeth yn rhoi darlun gwahanol o berfformiad pan yn cymharu gyda chwarter 1 pan mai ond y Blaenoriaethau Strategol a Gwella oedd yn cael eu mesur. Y mae’r pictiwr cyfredol yn un sydd wedi’i seilio ar berfformiad yn erbyn trefniadau cynlluniedig yn ystod chwarter 2 gydag elfen gryfach o ddadansoddiad yn dilyn drwy’r system Ffynnon (drwy ddefnyddio’r methodoleg Cytundeb Canlyniadau) o’r targedau a nodwyd ynghyd a’r risgiau perthnasol a’r mesurau lliniaru sydd i’w defnyddio i ddarparu sicrwydd corfforaethol am welliant mewn perfformiad.

| **D – Argymhelliad** |
|---|
| Argymell –<br><br>1. Gofyn i'r Pwyllgor Sgrwtini gyflwyno sylwadau ar y cynnydd a wnaed a nodi sylwadau Swyddogion ynghylch materion gweithredol sy'n cael sylw yn ystod chwarter 3. |

| | |
|---|---|
| **Enw awdur yr adroddiad:** | Gethin Morgan |
| **Teitl Swydd** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen |
| **Dyddiad** | **2**4.11.11 |

| **Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Perfformiad yn erbyn Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr gan gynnwys Blaenoriaethau Gwella a Strategol y Cyngor |

| **Papurau Cefndirol:** |
|---|
| Cynllun Busnes Corfforaethol 2011/12 @ www.ynysmon.gov.uk |

APPENDIX A - **BLAENORIAETHAU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y COMISIYNWYR - 2011/12 – Q2**
**COMMISSIONERS CORPORATE GOVERNANCE PRIORITIES - 2011/12 – Q2**

| **Blaenoriaeth / Priority** | **Statws RAG Status** |
|---|---|
| 1. Safonau Ymddygiad Aelodau a Swyddogion / Standards of Conduct and behaviour of Members and Officers | A |
| 2. Datblygu partneriaethau effeithiol rhwng y Cyngor a'r sectorau cyhoeddus a preifat yn lleol, rhanbarthol a cenedlaethol / Develop effective partnerships between Council and the public and private sectors at a local, regional and national level | A |
| 3. Datblygu blaenoriaethau strategol gyda danosyddion deilliannau mesuriadwy / Develop strategic priorities with more outcome focused measurement | G |
| 4. Effeithiolrwydd Sgrwtini / Effectiveness of Scrutiny | A |
| 5. Cydlyniad, trefniadaeth a effeithiolrwydd Uwch Dim Rheoli y Cyngor / The organisation, coherence and effectiveness of the Council's senior management Team | G |
| 6. Effeithlonrwydd Pwyllgor Safonau y Cyngor / Effectiveness of the Council's Standards Committee | G |
| 7. Adnabod ac ystyried blaenoriaethau a barn dinasyddion Mon / Fully engage with and reflect the views and priorities of the citizens of Anglesey | G |
| 8. Gwella capasiti, ansawdd a rheolaeth y gwasnaethau corfforaethol / Improve the capacity, quality and management of corporate support services | R |

| | |
|---|---|
| 9. Cyflwyno system grymus ar gyfer rheolaeth perfformiad, prosiect a risg / Introduce a robust process for the performance, project and risk management | A |
| 10. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol / Relationship between Members and Political Groups | R |

## BLAENORIAETHAU GWELLA'R CYNGOR 2011/12
## COUNCIL'S IMPROVEMENT PRIORITIES 2011/12

| | |
|---|---|
| 1. Gweithredu mwy fel Busnes / Becoming More Businesslike | A |
| 2. Cyflenwi'r rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy / Delivering against the Affordable Priorities Programme | R |
| 3. Gwireddu'r Cytundeb Canlyniadau / The realisation of our Outcome Agreement | A |
| 4. Adnewyddiad Democrataidd / Democratic Renewal | G |

## BLAENORIAETHAU STRATEGOL Y CYNGOR
## COUNCIL'S STRATEGIC PRIORITIES

| | |
|---|---|
| 1. Gwarchod a datblygu economi'r Ynys / Protect and develop the Island's Economy | A |
| 2. Datblygu a chefnogi cymunedau cynnaliadwy / Build and support sustainable communities | G |
| 3. Hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg / Promote healthy, safe, and fair communities | A |
| 4. Gwasanaethau effeithlon a fforddiadwy / Businesslike and Affordable Services | A |
| 5. Codi proffil economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor ar Ynys / Raising the economic, social and environmental profile of the Council and Island | A |

GM – 4.11.11